

CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd yn VIA VIDEO CONFERENCE, Dydd Iau, 24 Mehefin 2021 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynrychiolydd Cyngor Sir Ddinbych

Cynghorwyr Ellie Chard (Cadeirydd), Rachel Flynn, Meirick Lloyd Davies, Emrys Wynne a Cheryl Williams

Yn Cynrychioli Enwadau Crefyddol

Jennie Downes, Collette Owen, Parch. Brian Jones a Dominic Oakes

Yn cynrychioli Cymdeithasau'r Athrawon:

Leah Crimes, Sarah Griffiths a Katie Mason

HEFYD YN BRESENNOL

Ymgynghorydd AG (PL), Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP) a Gweinyddwyr Pwyllgor (SLW a KE)

Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio a'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol oherwydd pandemig y coronafeirws, cynhaliwyd y cyfarfod o bell trwy gyfrwng fideo gynadledda ac nid oedd ar agor i'r cyhoedd.

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Tony Flynn

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG) a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021 (wedi'u cylchredeg yn flaenorol).

PENDERFYNWYD derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021 fel cofnod cywir.

5 CADARNHAU'R CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AG wybod i Aelodau y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn newid yn nhymor yr hydref. Ni fyddai'r Is-gadeirydd presennol, Dominic Oakes yn gallu cymryd rôl y Cadeirydd oherwydd ymrwymïadau gwaith. Felly, gofynnodd yr Ymgynghorydd AG am i enwebiadau gael eu hanfon ato cyn cyfarfod mis Hydref.

PENDERFYNWYD anfon enwebiadau ar gyfer Cadeirydd ac Is-gadeirydd at yr Ymgynghorydd AG cyn cyfarfod CYSAG mis Hydref.

6 CWRICWLWM CYMRU: CANLLAWIAU CREFYDD, GWERTHOEDD A MOESEG

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG adroddiad ar Ganllawiau Cwricwlwm Cymru: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg.

Rhoddodd yr Ymgynghorydd AG wybod i Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gyhoeddi canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Mae'n bosib y bydd y canllawiau'n rhan sylweddol o Faes Llafur Cytunedig Sir Ddinbych.

Cyn y cyfarfod, roedd dolenni wedi eu hanfon at bob aelod o'r CYSAG, sef y ddogfennaeth ymgynghori a'r arweiniad i'r ymgynghoriad.

Roedd Eglwys San Silyn, Wrecsam wedi creu fideo oedd yn rhoi trosolwg clir o'r ymgynghoriad.

Roedd y fideo ymgynghoriad yn cynnwys saith lens:

- Chwilio am ystyr a phwrpas
- Y byd naturiol a phethau byw
- Adnabod a pherthyn
- Awdurdod a dylanwad
- Perthnasoedd a chyfrifoldebau
- Gwerthoedd a moeseg
- Taith bywyd

Aeth yr Ymgynghorydd AG drwy'r holiadur oedd yn cynnwys 10 cwestiwn, a dywedodd, pe gallai Aelodau gymryd amser i ail-wylïo'r fideo eto a mynd drwy'r ddogfen ymgynghori, gallent anfon cwestiynau neu ddatganiadau ato cyn yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf.

Ymatebodd Aelodau i'r gwahanol gwestiynau a chadarnhau y byddent yn craffu ar y ddogfen ymgynghori ac ymateb i'r Ymgynghorydd AG cyn yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf.

PENDERFYNWYD y byddai Aelodau'r CYSAG yn trafod ac yn cytuno ar ymatebion i'r ddogfen ymgynghori.

7 ANNUG AMRYWIAETH O GYNRYCHIOLAETH AR Y CYSAG

Cyflwynodd yr Ymgynghorydd AG yr adroddiad Annog Amrywiaeth o Gynrychiolaeth ar y CYSAG.

Yn y cyfarfod blaenorol, nododd yr aelodau'r diffyg amrywiaeth o gynrychiolaeth ar y CYSAG.

Trafododd yr Aelodau sut y gallai'r gynrychiolaeth o gredoau amrywiol gan drigolion Sir Ddinbych gefnogi gwaith CYSAG wrth iddo barhau i gynghori'r Awdurdod Lleol a chefnogi ysgolion.

Cadarnhawyd bod newid wedi'i wneud mewn llawer o ysgolion i ddarparu ar gyfer amrywiaeth o gredoau. Roedd wedi bod yn anodd cael cynrychiolaeth o rai credoau ar y CYSAG, e.e.: Mwslim a dyneiddwyr. Byddai bod yn gynrychiolydd ar CYSAG yn gyfle i aelodau o gredoau gwahanol gael dweud eu barn.

Gan fod Cynghorwyr yn ymwybodol o'r credoau gwahanol yn eu cymunedau, gellid creu rhestr o gysylltiadau ar gyfer cynrychiolwyr y credoau gwahanol. Gellid cysylltu â Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned i ddarganfod pa grwpiau oedd yn defnyddio eu canolfannau cymunedol.

Cadarnhawyd y byddai cynllun gweithredu yn cael ei greu yn ystod yr haf ac y byddai'n cael ei ddefnyddio fel dogfen fyw yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD bod yr adroddiad yn trafod sut y gallai CYSAG dynnu ar y safbwyntiau amrywiol e.e. cynrychiolaeth neu gyflwyniadau gan Aelodau. Cynllun Gweithredu i gael ei roi at ei gilydd a'i gyflwyno i aelodau yn yr hydref.

8 CCYSAGC

Cadarnhaodd yr Ymgynghorydd AG, Phil Lord ei fod wedi mynychu cyfarfod Cymdeithas Cynghorau Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol Cymru yr wythnos flaenorol.

Roedd cofnodion cyfarfod y gwanwyn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth wedi cael eu cylchredeg yn flaenorol i Aelodau er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD, y bydd aelodau'r CYSAG yn:

- Derbyn cofnodion cyfarfod y Gwanwyn a gynhaliwyd ar 23 Mawrth.
- Derbyn diweddariad ar lafar o gyfarfod yr Haf a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2021.

9 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Dyddiad cyfarfod nesaf y CYSAG fyddai 20 Hydref 2021.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:03 p.m.